

Gweithdrefn Galw Cais i Mewn

1.1 Egluro Dirprwyaethau Cynllunio

Pan gaiff swyddogaethau eu dirprwyo i'r Pwyllgor Cynllunio a Phennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas, caiff y swyddogaethau eu cyflawni gan y swyddogion dan yr amgylchiadau canlynol.

- 1.19.1 **Ceisiadau cynllunio, ceisiadau eraill, materion cysylltiedig a galw cynlluniau i mewn gan gynghorwyr**
- 1.19.2 Rhoddir gwybod ymlaen llaw i gynghorwyr, drwy e-bost, am bob cais cynllunio dilys sy'n cael ei dderbyn.
- 1.19.3 Yn amodol ar 1.19.6 ac 1.19.8 isod, bydd penderfyniadau ar bob cais cynllunio (caniatâd, cymeradwyaeth, cymeradwyaeth neu gydsyniad ymlaen llaw) sy'n cael eu cyflwyno dan y ddeddfwriaeth/yr amgylchiadau canlynol yn cael eu dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Lleodedd neu Bennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas:
- a. Deddfau Cynllunio Gwlad a Thref 1990 - 2008;
 - b. Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990;
 - c. Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990;
 - ch. Deddfau Carafanau a Rheoli Datblygu 1960 a 1968;
 - d. Gwneud sylwadau ar ôl ymgynghoriad ffurfiol ar ddatblygu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, adrannau'r llywodraeth, cyrff statudol a chyrff eraill; neu
 - dd. Ddatblygu ar dir yn ardal awdurdod lleol arall.
- 1.19.4 Bydd penderfyniadau ar geisiadau a nodir yn 1.19.3 uchod yn cael eu cyfeirio i'r Pwyllgor Cynllunio dan yr amgylchiadau canlynol:
- 1.19.5 **Ceisiadau Gwyo** Mae'r cais yn groes i ddarpariaethau'r Cynllun Datblygu, ac mae'n cael ei argymhell i'w gymeradwyo gan Bennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas;
- 1.19.6 **Ceisiadau gan Gynghorwyr/Swyddogion** Mae cais wedi'i gyflwyno gan unrhyw swyddog sy'n rhan o'r broses gynllunio neu gan gynghorydd. Mae swyddog yn rhan o'r broses gynllunio os yw'n aelod o staff yn yr Is-adran Cynllunio, neu'n rhan o'r broses o orfodi materion cynllunio, neu'n rhoi cyngor neu gefnogaeth i swyddogion neu gynghorwyr sy'n rhan o'r broses gynllunio, neu os gellid ystyried ei fod yn rhan o'r broses gynllunio;
- 1.19.7 **Datblygu AEC** Mae'r cais yn cynnwys Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEC).
- 1.19.8 **Trothwy Datblygu Amgen** Mae'r cais yn berthnasol i'r mathau canlynol o ddatblygu:
- a) Cloddio a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion gweithio mwynau;

Gweithdrefn Galw Cais i Mewn

- b) Datblygu gwastraff;
- c) Darparu anheddau lle —
 - i) Darperir o leiaf 20 o anheddau; neu
 - ii. Bydd gan safle'r datblygiad arwynebedd o 1 hectar neu fwy ac ni wyddys a ddylid cynnwys y datblygiad yn is-baragraff (c)(i);
- ch) Darparu adeilad neu adeiladau lle bydd arwynebedd llawr y datblygiad yn 2,000 metr sgwâr neu fwy; neu
- d) Bydd gan safle'r datblygiad arwynebedd o 2 hectar neu fwy.

1.19.9 **Galw Cais i Mewn gan Gynghorydd** Mae cynghorydd wedi gofyn drwy lythyr, e-bost neu ffacs o fewn 21 diwrnod o gael ei hysbysu bod cais dilys wedi'i dderbyn (neu o fewn y cyfnod ailymgynghori penodol) – h.y. y "cyfnod galw i mewn" — y dylid adrodd amdano i'r Pwyllgor Cynllunio a chyrrhaeddwyd y trothwy gwrthwynebiadau o fewn y "cyfnod galw i mewn", sef:

- i) Mae'r cais yn destun 20 o lythyrau gwrthwynebiad oddi wrth bobl wahanol mewn cyfeiriadau gwahanol; neu
- ii) Ddeiseb â 30 o lofnodion neu fwy gan bobl wahanol mewn cyfeiriadau gwahanol.

1.19.10 **Atgyfeiriad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio** Lle mae "cynghorydd wedi galw cynllun i mewn" yn ystod y "cyfnod galw i mewn" ond ni chyrrhaeddwyd y trothwy gwrthwynebiadau, gall Cadeirydd y Pwyllgor gyfeirio'r cais i'r Pwyllgor Cynllunio benderfynu arno lle bydd gan y datblygiad effaith fesuradwy ar draws y gymuned neu mae buddiant mesuradwy ar draws y gymuned mewn datblygiad sy'n fwy na diogelu buddiannau un person, neu grŵp o bobl, yn erbyn gweithgareddau eraill.

1.19.11 **Atgyfeiriad gan Bennaeth Gwasanaeth** Mae'r cais, ym marn Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas, o bwys strategol neu mae Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas o'r farn y dylai'r Pwyllgor Cynllunio benderfynu ar y cais.

1.19.12 Gall cynghorwyr dynnu'r penderfyniad i alw cais i mewn ar unrhyw adeg cyn i agenda'r pwyllgor perthnasol gael ei chadarnhau. Gall hyn ddilyn cysylltiad rhwng y cynghorydd (cynghorwyr) a'r swyddog(ion) cynllunio.

1.19.13 Os bydd cynghorydd am ddefnyddio'r broses o alw cais i mewn er mwyn galw cais i mewn sydd yn ardal cynghorydd arall/cynghorwyr eraill, rhaid iddo hysbysu cynghorydd (cynghorwyr) yr ardal y mae'r cais yn berthnasol iddi, gan roi rheswm, cyn galw'r cais i mewn.

1.19.14 Yn achos 1.19.13 uchod, rhaid i'r cynghorydd sy'n galw cais i mewn hefyd roi hysbysiad ysgrifenedig (llythyr, e-bost neu ffacs) i Bennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas, gan ddatgan bod y cynghorydd (cynghorwyr) y mae'r cais yn berthnasol iddo wedi cael gwybod am fwriad y cynghorydd i alw cais i mewn. Ni fydd unrhyw gais sy'n cael ei alw i mewn gan gynghorydd

Gweithdrefn Galw Cais i Mewn

mewn ardal cynghorydd arall/cynghorwyr eraill yn ddilys oni bai ei fod yn cynnwys datganiad ysgrifenedig.

- 1.19.15 Mae dyletswydd ar y cyngor i sicrhau ei fod yn cynnal gwasanaeth cynllunio effeithlon ac yn ymdrin â cheisiadau cynllunio'n brydlon. Er bod y weithdrefn galw i mewn yn rhan sylfaenol a phwysig o'r broses ddemocrataidd, gall 'galw ceisiadau i mewn' yn ddiangen arwain at oedi afresymol.

Felly, pan ystyrir bod aelod neu aelodau'n galw ceisiadau cynllunio i mewn yn afresymol neu'n camddefnyddio'r broses 'galw i mewn' o bosib, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, yn y lle cyntaf, yn trafod y sefyllfa â'r aelod/aelodau dan sylw.

Os na chaiff y mater ei ddatrys, yna bydd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ac aelod o'r Pwyllgor Cynllunio'n adolygu'r holl geisiadau 'galw i mewn' i'r Pwyllgor Cynllunio gyda'r aelod(au) dan sylw a bydd ganddynt yr awdurdod i dynnu unrhyw geisiadau "galw i mewn gan gyngorydd" yn ôl. Bydd penderfyniad y panel hwn yn derfynol.

1.2 Materion Gorfodi

- 1.20.1 Bydd y broses o roi'r holl bwerau gorfodi ar waith yn cael ei dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Lleoedd neu Bennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas, oni bai y byddai'r cam gweithredu arfaethedig yn arwain at golli uned breswyl.

1.3 Materion Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Penderfynu ar bob mater hawliau tramwy cyhoeddus, heblaw am benderfyniadau sy'n gysylltiedig â'r canlynol (**yr adroddir amdanynt i'r Pwyllgor Cynllunio**):

- 1.21.1 Gorchmynion creu, dargyfeirio a diddymu hawliau tramwy cyhoeddus (o dan yr holl Ddeddfau) sydd, ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus, yn debygol o gael eu herio neu fod yn ddadleuol;
- 1.21.2 Cais i Lys yr Ynadon am gau neu ddargyfeirio hawl tramwy cyhoeddus;
- 1.21.3 Penderfynu ar geisiadau am hawliau tramwy newydd a chywiriadau i gofnodion hawliau tramwy presennol (gan adolygu'r Map Diffiniol yn barhaus);
- 1.21.4 Gorchmynion Rheoleiddio Traffig (heblaw am ar gyfer cau neu gyfyngiadau dros dro sy'n angenrheidiol am resymau diogelwch; er mwyn i waith gael ei wneud; neu er mwyn cynnal digwyddiad arbennig)."